20 Chwefror 2008

Annwyl Rhodri Glyn Thomas,

Bydd y llythyr hwn, rwy'n siŵr, yn un o lawer a dderbyniwch ynglŷn â'r *Byd*, ond gobeithio serch hynny yr ewch i'r drafferth i'w ddarllen. Mae'r ddau ohonom ni bellach wedi ymddeol – un ohonom wedi mynd heibio oed yr addewid – ac ni all yr un ohonom gofio adeg pan nad oeddem yn gefnogol i Blaid Cymru, ac yn weithgar drosti, y naill flynyddoedd yn ôl ym Mrynaman cyn dod yma i Geredigion, lle bu'r llall yn ysgrifennydd y Pwyllgor Rhanbarth am gyfnod maith, yn asiant i'r ymgeisydd seneddol mewn dau etholiad cyffredinol yn nydd y pethau bychain, ac yn ymgeisydd ei hun mewn sawl etholiad lleol. Dosbarthodd y ddau ohonom gannoedd o daflenni o ddrws i ddrws yn ein tro.

Cymaint â hynny am ein pedigri er mwyn tanlinellu'r siom a deimlwyd gennym pan glywsom eich datganiad y dydd o'r blaen, sef eich bod am dorri'r addewid a wnaed gan y Llywodraeth yr ydych chi yn rhan ohoni, yn y ddogfen 'Cymru'n Un', sef i '[g]ynyddu'r cyllid a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, *gan gynnwys sefydlu papur dyddiol Cymraeg*.' Petai'r datganiad wedi dod o enau Huw Lewis, Merthyr, neu Leighton Andrews, y Rhondda, neu rhyw ddeinosoriaid Llafur eraill, ni fyddai'n fawr o syndod, ond o'ch genau chi y daeth, un o Aelodau Cynulliad y Blaid sy'n honni mai hi sydd â lles Cymru a'r Gymraeg nesaf at ei chalon. Chwedl Dr John Rowlands ar y radio trannoeth y datganiad cywilyddus, 'y mae'r gelyn yn ein plith'. A chyn dristed bob tamaid â'r datganiad oedd y sbin – na fyddai ar Alistair Campbell gywilydd i'w arddel – y ceisiwch chi a Ieuan Wyn Jones roi ar y swm o £600,000 dros dair blynedd. Fe wyddoch chi fel y gŵyr pawb na all swm felly byth bythoedd 'sefydlu papur dyddiol Cymraeg', ac os tybiwch y gallwch guddio'r addewid bendant a wnaed y tu ôl i'r swm honno, yna gwybyddwch nad ydych yn twyllo neb.

Bu eich datganiad yn ysgytwad i ni hyd at ddagrau, a pharodd inni feddwl o ddifri am ein hymateb gwleidyddol yn y dyfodol. A allwn barhau i gefnogi plaid nad oedd yn barod pan gafodd gyfle, i ymladd ei chornel dros fenter a fyddai wedi bod yn ergyd wirioneddol effeithiol dros y Gymraeg?

Yn gywir,

Tegwyn Jones Beti Jones